# Cofnodion

## Pwyllgor Safonau

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Iau, 16 Ionawr 2020 |
| Amser: | 5.30 pm |
| Bresennol: | Cynghorwyr Westwood (Cadeirydd), Davies, H Thomas, P Hourahine, H Britton, A Mitchell, Watkins and Worthington<br><br>Gareth Price (Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio) and Pamela Tasker (Swyddog Llywodraethu) |
| Yn bresennol: | Dim |
| Ymddiheuriadau: | Cynghorwyr |

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Dim

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Cytunwyd: Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2019 fel cofnod cywir.

4 **Materion yn codi**

Derbyniwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau gan y Cyngor ym mis Tachwedd ac fe'i derbyniwyd yn ddi-gwestiwn

5 **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Ni chafwyd cyhoeddiadau gan y Cadeirydd

6 **Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

Cyfeiriodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio yr Aelodau at Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) gan nodi un neu ddwy ran berthnasol ar gyfer y Pwyllgor Safonau.
Y materion pwysig a nodwyd oedd:

- Diwygio Trefniadau Etholiadol, gan ganiatáu i bobl ifanc 16 i 17 oed bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol a fyddai'n ddiwygiad radical i etholiadau. Roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi deddfu i ganiatáu i bobl ifanc 16 ac 17 oed bleidleisio yn etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2021.

- Cyd-bwyllgorau corfforaethol - ailstrwythuro llywodraeth leol oedd hyn er mwyn hwyluso dulliau gweithio rhanbarthol mwy cyson a chydlynol a byddai'n caniatáu i grwpiau o gynghorwyr ar y cyd ddarparu rhai gwasanaethau ar sail gydweithredol. Roedd hyn yn wahanol i'r Cydbwyllgorau a oedd yn bodoli eisoes, nad oedd ganddynt unrhyw statws cyfreithiol ar wahân ac a oedd yn gweithredu fel trefniadau gwirfoddol ar y cyd rhwng cynghorau.
- Y gwasanaethau cychwynnol i'w darparu drwy'r CJC oedd trafnidiaeth ranbarthol a chynllunio a datblygu rhanbarthol.

Byddai rhai darpariaethau'n dod i rym cyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf ym mis Mai 2022, a oedd yn golygu newidiadau eithaf helaeth mewn Llywodraeth Leol, sut yr oeddent yn cael eu rheoli ac ati yn ogystal â chynghorau lleol. Byddai'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn democratiaeth leol gyda mandad i bob cyfarfod Pwyllgor gael ei ddarlledu'n fyw. Ar hyn o bryd dim ond cyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor llawn oedd yn cael eu gweddarlledu o Siambr y Cyngor.
Nodwyd y byddai'n rhaid addasu ystafelloedd cyfarfod pob cyngor er mwyn caniatáu i gyfarfodydd Pwyllgorau gael eu gwe-ddarlledu felly byddai hyn yn gost sylweddol.
Yn hytrach na mynychu'n gorfforol, gallai Aelodau Pwyllgorau ddefnyddio Skype neu MS Teams a oedd yn ddefnyddiol i gynghorau anghysbell e.e. Cyngor Powys.
Trafodwyd beth fyddai'n digwydd pe bai TG yn methu yn ystod pleidlais hollbwysig a'r agweddau ymarferol ar reoli cyfarfod gyda nifer fawr o fynychwyr o bell.

Trafodwyd tri phwynt pwysig:

- Roedd dyletswydd ar arweinwyr grŵp i hyrwyddo safonau moesegol mewn grwpiau gwleidyddol; Mae'r Pwyllgor Safonau yn monitro sut mae Arweinwyr yn gwneud hyn. Byddai Llywodraeth Cymru yn cynnig arweiniad ar hyn a byddai'n rhaid arsylwi sut y byddai hyn yn datblygu. Roedd hyn yn ddyletswydd statudol.
Dywedodd y Cynghorydd Hourahine eu bod wedi mynychu cyfarfod llywodraethwyr ysgol blaenorol a dywedwyd ynddo y gellid gwneud Skype ar gael ond nad oedd yn cael ei ganiatáu gan fod angen bod yn bresennol yn gorfforol mewn cyfarfodydd ac na allai'r ysgol dalu'r gost.  Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod hyn yn faes deddfwriaeth arall. Fodd bynnag, gallai Llywodraeth Cymru ddeddfu ar hyn ac roedd yn broblem ymarferol i'r Cyngor.
Nid oedd cael y cyfleuster yno'n golygu y byddai pobl yn ymuno â chyfarfodydd a gallai pobl eu hosgoi petaent am wneud hynny.

- Erbyn hyn, mae'n ofynnol i Gynghorwyr lunio adroddiad blynyddol, ac roedd Casnewydd eisoes yn hwyluso hyn. Byddai angen i'r adroddiad hwn fod ar gael i'r cyhoedd hefyd.

-Ymchwiliad yr Ombwdsmon-roeddent wedi colli rhai o'u pwerau ymchwilio yn flaenorol ac felly roedd hyn yn rhoi'r hyn a gollwyd yn ôl. Golygai hyn y gallai'r Ombwdsmon fynnu gwybodaeth gan bobl ac osgoi honiadau o ddifenwi technegol a gweithdrefnol, dan adran 69 o Ddeddf 2000.

Trafodwyd bod dyletswydd yr arweinyddion grŵp yn ddiddorol ac y byddai'n ddiddorol cadw at y cosbau ar gyfer hyn.

Cwestiynau:
Dywedodd Dr Worthington fod yr adroddiad yn grynodeb defnyddiol iawn o'r pwyntiau nodedig ac mai mater yr arweinwyr oedd yr un mwyaf perthnasol.
Yn ymarferol, nid oedd grŵp o ddau aelod gwleidyddol o reidrwydd mewn grŵp gwleidyddol penodol. Er enghraifft, mae Annibynwyr Casnewydd ar y Cyngor, nid oeddent yn grŵp gwleidyddol cydnabyddedig ond mae ganddynt arweinydd grŵp.

Holodd y Cadeirydd pe bai'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau gyfeirio at yr Ombwdsmon pwy fyddai'n penderfynu mynd at y panel dyfarnu. Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a

Rheoleiddio mai'r Ombwdsmon sy'n penderfynu hyn ac os yw'n ddigon difrifol, wedyn byddai'n cynnal ymchwiliad. Pe bai'r mater o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Safonau, yna gallai'r Pwyllgor benderfynu beth allai'r canlyniad fod ond pe bai angen corff uwch, yna gallai fynd i banel annibynnol uwch, gan fod ei bwerau'n uwch. Pan wnaed apêl gan y Pwyllgor Safonau i banel er enghraifft a chafodd Cynghorydd waharddiad dros dro am ddau fis yna gallai'r Cynghorydd hwnnw apelio ond byddai gan y panel wedyn ddisgresiwn i gynyddu yn ogystal â lleihau unrhyw sancsiwn.

## 7 Holiadur Safonau Moesegol

Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio na ymatebodd llawer o bobl i'r Holiadur Safonau Moesegol ond yn ystadegol cafwyd yr un ymateb â'r holiadur blaenorol, oedd 20%, ac roedd hyn yn dargedig ac yn ddisgwyliedig. Roedd ymholiadau wedi'u gwneud gyda chynghorau lleol eraill, sef Abertawe, Caerffili a Thorfaen. Cadarnhaodd cynghorau Caerffili a Thor-faen nad oeddent yn ymwybodol o'r Holiadur Safonau Moesegol. Cadarnhaodd Cyngor Abertawe eu bod wedi gwahodd eu Harweinwyr Grŵp Gwleidyddol, a chadeiryddion penodol pwyllgorau i gyfarfodydd ei Bwyllgor Safonau bob blwyddyn i gael sgwrs agored a gonest am foeseg, safonau ac ymddygiad cyffredinol yn Abertawe.

Gofynnodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio i Aelodau'r Pwyllgor edrych ar yr Holiadur a dywedodd fod cwestiynau 1-4 yn eithaf cadarnhaol. Cafwyd ymateb cytbwys i gwestiwn 4 ac ar gyfer cwestiwn 5 roedd mwy o ansicrwydd ynghylch a oedd y gwahanol rolau rhwng Aelodau a Swyddogion yn y Cyngor yn glir. Dangosodd cwestiwn 6 fod y rhan fwyaf o bobl yn cytuno; a dangosodd cwestiynau 7 a 9 fod y rhan fwyaf o bobl yn cytuno gydag un ateg anghytuno. Dangosodd cwestiwn 10 fod y rhan fwyaf o bobl yn cytuno y byddent yn cael budd o hyfforddiant.

Yna trafodwyd sut yr oedd yn anodd cael Aelodau i fynychu hyfforddiant ar adegau. Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio y gallai Cynghorwyr bellach gael rhywfaint o hyfforddiant ar-lein yn hytrach na mynychu cyfarfodydd. Cadarnhawyd hefyd y byddai hyfforddiant i glercod cynghorau cymuned yn cael ei drefnu yn y dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd Hourahine ei fod wedi mynychu hyfforddiant y gwasanaethau tân, na fyddai wedi gweithio cystal pe bai'r hyfforddiant ar-lein. Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio mai sesiwn wybodaeth oedd hyfforddiant y gwasanaethau tân yn hytrach na hyfforddiant ffurfiol.
Gofynnodd y Cadeirydd a oedd Uwch Swyddogion yn gwybod am God Ymddygiad Cynghorwyr fel y nodwyd yn y sylwadau ar ddiwedd yr holiadur.

Disgwylid i'r Swyddogion fod yn gyfarwydd â chod y gweithwyr a disgwylid iddynt wybod bod cod ymddygiad ar gael. Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod hyn yn cael ei drafod yn yr hyfforddiant newydd i staff ac yn Fforwm yr Uwch Reolwyr.
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw beth wedi'i nodi yn yr adran sylwadau i weithredu arno. Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod Rheolwyr newydd yn cael hyfforddiant sefydlu ac felly roedd fframwaith eisoes ar waith. Byddai angen i Gynghorwyr gael hyfforddiant bob 5 mlynedd. Mae aelodau'r Pwyllgor Cynllunio'n cael hyfforddiant bob 2-3 blynedd.

Dywedodd y Cadeirydd eu bod wedi siarad ag Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd yr Wrthblaid yn flaenorol a bod angen siarad â hwy nawr er mwyn rhoi gwybod iddynt am ganlyniadau'r holiaduron.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio y gellid ysgrifennu at Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd yr Wrthblaid ar wahân ond y Cadeirydd fydd yn penderfynu hyn. Adroddwyd hefyd ar gofnodion y cyfarfod i'r Cyngor.

**Cytunwyd:** Y Cadeirydd i ysgrifennu llythyr fel cwrteisi, at Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd yr Wrthblaid i'w hysbysu am ganlyniad yr Holiaduron Safonau Moesegol.

**Unrhyw Fater Arall:**

Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod arweiniad pellach wedi'i dderbyn gan y Panel Dyfarnu ynghylch aelodau'n arfer eu hawliau i fynychu a chael eu cynrychioli mewn gwrandawiadau panel. Rhoddwyd 21 diwrnod i'r Aelodau gadarnhau y byddent yn bresennol a rhoi manylion unrhyw gynrychiolwyr a thystion. Fodd bynnag, nid oedd yr Aelodau yn ateb o fewn yr 21 diwrnod. Nid oedd y Panel yn fodlon â hyn ac felly maent wedi dweud eu bod yn methu os nad oedd yr holl wybodaeth wedi'i dychwelyd o fewn 21 diwrnod. Roedd yn bwysig llenwi'r ffurflen o fewn 21 diwrnod gan y gallai'r Aelod golli'r hawl i wrandawiad llawn fel arall.

## 8 Cwynion

Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod un gŵyn arall wedi'i gwneud i'r Ombwdsmon. Nid oedd yn gysylltiedig ag ymddygiad yn y Cyngor ond roedd yn gysylltiedig ag ymddygiad honedig Cynghorydd yn y ward. Roedd problemau personol rhwng aelod ward a chymydog ac mae'r heddlu wedi mynd ynghlwm yn y mater. Mae'r Cynghorydd yn gwrthbrofi'r camymddwyn honedig ac roedd yn aros i glywed gan yr Ombwdsmon ynghylch a fyddai'n ymchwilio i'r mater ymhellach. Bydd yr heddlu'n dweud a oedd achos i ateb iddo.

## 9 Dyddiad y cyfarfod nesaf

16 Ebrill 2020

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified